

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 20 Tachwedd 2018

Presennol: Cyng. Einir Thomas (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen

Ymddiheuriadau: Cyng. Sharon Wyn Parry
Cyng. Beryl Salisbury
Cyng. Dyfed Williams

2. Datganiad o ddiddordeb: - dim.

3. Cofnodion cyfarfod 16 Hydref 2018

Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir (Cynnig Cyng. William Victor Owen, eilio Cyng. Gwilym Jones.)

4. Materion yn codi o'r cofnodion:

1. Cae Chwarae - Trefnwyd cyfarfod gyda MacVenture Playground Ltd am 9.45 ddydd Mercher 28.11.2018 i drafod y gwaith ar yr offer chwarae.
2. Cynnal a Chadw Priffyrdd - Roedd y contractwyr wedi cytuno i gyfrannu at y gost o ail-wynebu'r ffordd o'r Toll Dy hyd at yr arwydd 30 milltir ar Ffordd Cymyran a'r gobaith oedd y byddai'r gwaith hwn yn cychwyn yn fuan. Roedd CSYM yn dal i drafod gweddill y gwaith.
3. Hysbysfwrdd - Cafwyd map gydag awgrymiadau gan CSYM am safleoedd lle byddent yn fodlon i ganiatáu i'r Cyngor Cymuned osod hysbysfwrdd. (wrth Stad Treifan ac wrth yr Eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn). Ond byddai angen gwneud cais cynllunio ar eu cyfer unwaith bydd penderfyniad ar y safle. Penderfynwyd: gofyn i CSYM a fyddai'n bosibl rhoi hysbysfwrdd ar y wal wrth stad Rhen Ysgol.
4. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion

5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:

5.1 Penderfyniadau cynllunio - dim

5.2 Ceisiadau Cynllunio

32C196A – Fron Wen, Minffordd Road, Caergeiliog

Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Newid arfaethedig i gais a gymeradwywyd yn flaenorol 32C196

(Cais llawn i ddymchwel yr annedd presennol ac ail-godi annedd newydd yn ei le, ymestyn y cwrtil ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau) – dim gwrthwynebiad.

32C104A Baron Hill, Llanfair yn Neubwll - hysbysiad o apêl

(Cais llawn i godi cytiau cŵn (gofal dydd yn unig) a cathdy ar gyfer defnydd busnes a gosod carthbwl.) nodwyd.

6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

1. Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith
2. Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned - cofnodion a rhaglen ar gyfer 28.11.2018
3. Cyfarfod Cyhoeddus ynglyn a 'Broadband' –yn Neuadd Bentref Bodedern am 6y.h. 29.11.2018
4. Ymgyrch Gwrth Beilonau Ynys Mon
5. Mapio Llifon – cyfarfod wedi ei ohirio

7. Materion Ariannol

Yn y banc ar 20.11.2018 Cyfrif Cyfredol £9940.54 Cyfrif Cadw £3,924.87

8. Taliadau i'w gwneud

Cyflog (Hydref.)	£183.50	HMRC (TWE)	£45.90
GMS INV4413	£91.20		

Cytunwyd i dalu'r rhain.

9. Cyfrifon 18/19

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a chysoniad banc am y cyfnod hyd at 31.10. 2018.

Nodwyd fod rhywfaint o waith sydd wedi ei wneud ar y cae chwarae ond byddai angen neilltuo arian i barhau â'r rhaglen gynnal a chadw. Nodwyd hefyd y bydd angen cronfeydd i gynorthwyo gyda chynnal a chadw'r Neuadd y Pentref gan nad oedd unrhyw leoliad cymunedol arall yn yr ardal. Bydd trafodaeth fwy manwl ar y

Llofnod.....Cadeirydd.....

sefyllfa ariannol yn y cyfarfod nesaf pan fydd mwy o'r Aelodau yn bresennol.

10. Gohebiaeth Eraill: cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

1. Strategaeth Ddigartrefedd – Strategaeth Ranbarthol (rhwng y chwe chyngor ar hyd Gogledd Cymru) i gydweithio i atal digartrefedd yng Ngogledd Cymru.
2. Yswiriant - Cyflwyniad i gwmni yswiriant 'Came a Company' fel opsiwn arall i Gyngorau Cymuned.
3. Bwletin Un Llais Cymru - yn cynnwys linc i adroddiad drafft y Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol Cymru sy'n cynnwys cynigion pellach ar lwfansau i gynghorwyr yn ogystal â'u hadroddiad terfynol ar yr adolygiad o ddyfodol Gyngorau Tref a Chymuned yng Nghymru.

11. Unrhyw fater arall:

- 11.1 Dywedodd Cyng. William Victor Owen fod Cymdeithas Awyrlu Fali yn bwriadu codi cofeb i'r rhai oedd â chysylltiad uniongyrchol ac yn anuniongyrchol a'r Llu Awyr Camp Fali a gollodd eu bywydau ers i'r safle gael ei agor yn 1941.

Hysbysodd Cyng. William Victor Owen fod yr arwydd 'give way' ar y gyffordd o'r lon gefn o Fryngwran i Ffordd Minffordd wedi syrthio.

12. Cyfarfod Nesaf – 15 Ionawr 2019

Llofnod.....Cadeirydd.....